**Gwasanaeth Gras (2024)**

## RHAGYMADRODD

"'O ARGLWYDD Dduw, gwnaethost y nefoedd a'r ddaear â'th fawr allu a'th fraich estynedig; nid oes dim yn amhosibl i ti."
[Jeremeia 32]

Bore da a chroeso i'r gwasanaeth! [*Sôn dy fod yn leygwr os bod angen*]

"Cans fyrdd yw'r ffyrdd at urddas bywiol lith
Camau dith cymdeithas;
Cymuno'n wên cymwynas:
Gorau greddf byw'r gwir â gras."

Mae 'na gofeb yn Hamburg, yn yr Almaen, i ddyn o'r enw Dietrich Bonhoeffer, gan y cerflunydd Edith Breckwoldt. Enw'r cerflun yw "Cofeb Y Dioddefaint". Arno mae'r arysgrifiad daw o waith Bonhoeffer:

"Ni all unrhyw ddyn yn y byd i gyd newid y gwir. Ni all rhywun ond chwilio am y gwir, dod o hyd iddo a'i wasanaethu. Y mae y gwir yn mhob man."

Mae 'na gerflun ohono hefyd uwch borth gorllewinol Abaty Westminster yn Llundain, i gofio amdano fel un o ferthyron modern yr ugeinfed ganrif.

Gwenidog Lutheraidd a diwynydd yn yr Almaen oedd Bonhoeffer, yn haner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Ysgrifenodd yn helaeth, yn enwedig ar rôl Cristnogaeth yn y byd modern seciwlar. Dros y misoedd diwethaf dwi wedi darllen cyfeithiadau o nifer o ysgrifau Bonhoeffer. Un testun y soniodd Bonhoeffer amdano mewn ffordd drawiadol, oedd "gras", neu "ras Duw". Soniodd am y gwahaniaeth rhwng "gras tsiêp" neu "ras rhad" a "gras pryd" neu "ras drud" - fe wnai ymhelaethu ychydig nes ymlaen. Wrth ddarllen, dechreuais sylweddoli nad oeddwn wir yn rhy siwr beth yn union yw "gras". A dyma ddechrau darllen yn enhangach ar y pwnc, a chasglu deunydd ar gyfer yr oedfa heddi. Ond cyn mynd ymhellach, gadewch i ni ganu'r emyn gyntaf.

EMYN: Gras, o'r fath beraidd sain (E161, T135 Bod Alwyn)

Mae 'da ni i gyd ein harwyr, siwr o fod. Rhai sydd, fel petai, wedi dilyn cwrs bywyd, er waethaf yr amgylchiadau, mewn ffordd sy'n ymddangos yn ddelfrydol i ni. Fel Cristnogion, a bobl o ffydd, edmygwn rheini sydd wedi ymdrechu i gadw at eu daliadau yn arbenig. Pobl sydd wedi mentro dweud beth oedd wir angen ei ddweud, neu wedi gwneud beth oedd angen ei wneud, er waethaf y gost personol, am fod **wir angen** dweud neu weithredu. Pobl sydd wedi tori drwy sŵn a nonsens y byd mewn ffordd egwyddorol, wedi gweld i fêr y ddynoliaeth, a **deall hanfodion y cyflwr dynol**. Un felly i mi yw Bonhoeffer.

Dychmygwch eich bod yn byw yn yr Almaen yn ystod 30au'r ungeinfed ganrif, yn anterth tŵf Natsïaeth. Cyfnod pan oedd eithafiaeth yn rhemp ar gyfandir Ewrop. Meddyliwch am Franco yn Sbaen, Salazar ym Mhortiwgal, Musolini yn yr Eidal, Stalin yn creu newyn erchyll yn yr Wcrain er mwyn gallu cynal economi'r Undeb Sofietaidd. Yn yr Almaen, cyfnod oedd hon pan fethodd yr Eglwysi Protestanaidd a Chatholig fel ei gilydd wrthwynebu Hitler. Cyfnod pan erlidiwyd Iddewon, ac yn wir pawb a wrthwynebai'r

unben. Er waethaf hyn oll, daeth Bonhoeffer yn adnabyddus am ei wrthwynebiad llwyr i'r Natsïaid, gan gynwys gwrthwynebiad cyhoeddus i raglen hil-laddol Hitler yn erbyn yr Iddewon.

"Daethant yn gyntaf am y Comiwnyddion;
Dywedais mo'r un gair
Am nad oeddwn yn Gomiwnydd.
Daethant wedyn am y Sosialwyr;
Dywedais mo'r un gair
Am nad oeddwn yn Sosialydd.
Daethant wedyn am y undebwyr llafur;
Dywedais mo'r un gair
Am nad oeddwn yn undebwr.
Daethant wedyn am yr Iddewon;
Dywedais mo'r un gair
Am nad oeddwn yn Iddew.
Yna daethant amdanaf i,
Ac nid oedd neb ar ôl i siarad drosof."
[Martin Niemoeller]

Mae ysgrifau Bonhoeffer ar rôl Cristnogaeth yn y byd seciwlar wedi dod yn ddylanwadol iawn; ystyrir ei gyfrol "Pris Disgyblaeth" ("The Cost of Discipleship"), a ysgrifenwyd yn 1937, yn glasur yn ol y gwybodusion. Ar wahân i'w ysgrifau, helpodd Bonhoeffer sylfaenu'r Eglwys Gyffesu ("The Confessing Church") yn yr Almaen a safai'n anibynol o'r gyfundrefn Natsïaidd – pobl dewr, gallwch ddychmygu, ymunai â'r Eglwys Gyffesu.

Cafodd Bonhoeffer ei arestio yn Ebrill 1943 gan y Gestapo a'i garcharu yng Ngharchar Tegel ger Berlin am flwyddyn a haner. Yn ddiweddarach, cafodd ei drosglwyddo i wersyll crynhoi (hyny yw, concentration camp) Flossenbürg. Cyhuddwyd Bonhoeffer o fod yn gysylltiedig â chynllwyn "yr Ugeinfed o Orffenaf" i lofruddio Hitler. Cafodd ei roi ar brawf ynghyd â chynllwynwyr cyhuddedig eraill, gan gynwys cyn-aelodau o'r Abwehr (sef Swyddfa Cudd-wybodaeth Filwrol yr Almaen). Cafodd ei grogi ar 9 Ebrill 1945 yn anhrefn cwymp y gyfundrefn Natsïaidd.

"Felly, am fod y Meseia wedi dioddef yn gorfforol, byddwch chithau'n barod i wneud yr un peth. Mae'r rhai hyny sy'n barod i ddioddef yn gorfforol wedi troi cefn ar bechod. Yn lle byw gweddill eich bywydau yn ceisio bodloni eich chwantau dynol, gwnewch beth mae Duw eisiau. … Mae Duw yn ei haelioni wedi rhanu rhyw ddawn neu'i gilydd i bob un ohonoch, a dylech wneud defnydd da ohoni drwy wasanaethu pobl eraill."
[1 Pedr 4]

"Gyfeillion anwyl, peidiwch â rhyfeddu at y prawf tanllyd sydd ar waith yn eich plith, fel petai rhywbeth rhyfedd yn digwydd ichwi. Yn hytrach, yn ôl maint eich cyfran yn nioddefiadau Crist llawenhewch, er mwyn ichwi allu llawenhau hefyd, a gorfoleddu, pan ddatguddir ei ogoniant ef. Os gwaradwyddir chwi oherwydd enw Crist, gwyn eich byd, o achos y mae Ysbryd y gogoniant, sef Ysbryd Duw, yn gorffwys arnoch. Ni ddylai neb ohonoch ddioddef fel llofrudd neu leidr neu ddrwgweithredwr, neu fel dyn busneslyd. Ond os bydd i rywun ddioddef fel Cristion, ni ddylai gywilyddio, ond gogoneddu Duw trwy'r enw hwn. Oherwydd y mae'n bryd i'r farn ddechrau, a dechrau gyda theulu Duw. Ac os gyda ni yn gyntaf, beth fydd diwedd y rhai sy'n anufudd i Efengyl Duw? Yng ngeiriau'r Ysgrythur: "Ac os o'r braidd yr achubir y cyfiawn, ple bydd

yr anuwiol a'r pechadur yn sefyll?" Am hyny, bydded i'r rhai sy'n dioddef yn ôl ewyllys Duw ymddiried eu heneidiau i'r Creawdwr ffyddlon, gan wneud daioni."
[1 Pedr 4]

Dioddefodd Bonhoeffer yn fodlon dros ei ffydd, er waethaf yr amgylchiadau. Fe wnaeth benderfyniadau anodd – efallai yn groes i ddaliadau Cristnogol - dros ei ffydd. Ond efallai o achos hyn i gyd, cafodd y fendith o ddod i weld hanfodion ei Gristnogaeth yn glir fel y dydd. Ac mae ei gyngor ysgrifenedig wedi bod o fudd i filiynau o Gristnogion yn fyd-eang am bron i ganrif.

A gawn ni ganu ymhellach rhif yr emyn:

EMYN: Ti yw'r hwn sy'n gwrando gweddi (E700, T576 Capel Y Ddôl)

**GWEDDI:**

A gawn ni droi at Dduw mewn gweddi. Gweddïwn,

"Y mae Duw yn noddfa ac yn nerth i ni, yn gymorth parod mewn cyfyngder. Felly, nid ofnwn er i'r ddaear symud ac i'r mynyddoedd ddisgyn i ganol y môr, er i'r dyfroedd ruo a therfysgu ac i'r mynyddoedd ysgwyd gan eu hymchwydd.
Y mae afon a'i ffrydiau'n llawenhau dinas Duw, preswylfa sanctaidd y Goruchaf. Y mae Duw yn ei chanol, nid ysgogir hi; cynorthwya Duw hi ar doriad dydd. Y mae'r cenhedloedd yn terfysgu a'r teyrnasoedd yn gwegian; pan gwyd ef ei lais, todda'r ddaear. Y mae ARGLWYDD y Lluoedd gyda ni, Duw Jacob yn gaer i ni.
Dewch i weld gweithredoedd yr ARGLWYDD, fel y dygodd ddifrod ar y ddaear; gwna i ryfeloedd beidio trwy'r holl ddaear, dryllia'r bwa, tyr y waywffon, a llosgi'r darian â thân. Ymlonyddwch, a deallwch mai myfi sydd Dduw, yn ddyrchafedig ymysg y cenhedloedd, yn ddyrchafedig ar y ddaear. Y mae ARGLWYDD y Lluoedd gyda ni, Duw Jacob yn gaer i ni."
[Salm 46]

Diolchwn am y cyfle i ddod at ein gilydd unwaith eto [yn *pwy, yn lle, pryd*].

Diolchwn am y croeso cynes cawsom wrth fentro i'r capel heddiw. Diolchwn am y gymdogaeth anwyl. Diolchwn am brydferthwch natur y tu allan. Diolchwn am deulu a ffrindiau.

Gweddïwn dros bawb sydd angen cymorth [*e.e. yn Gasa ac Israel, yn Wcrain a Rwsia, ac yma yng Nghymru*]. Cofiwn am bawb sy'n dioddef, pawb sy'n poeni, pawb sydd o dan anfantais.

Diolchwn i bawb sy'n cynig cymorth i eraill. Diolchwn am y rheini sydd ddigon doeth i geisio gweld y gwirionedd drwy'r anwiredd.

Diolchwn am Gareth Jones o'r Bari aeth i'r Wcrain yn y 1930au i gyhoeddi erchyllderau newyn Stalin i'r byd. Diolchwn am yr ambell wleidydd a newyddiadwr deallus sy'n ceisio mynd i'r afael â duwch ein gweidyddiaeth bresenol. Diolchwn am awduron fel George Orwell ac Islwyn Ffowc Elis, â'u storïau'n pigo'r cydwybod. A diolchwn am Dietrich Bonhoeffer, gwnaeth ei orau glas i gadw fflam gwir Gristnogaeth ynghyn yn yr Almaen er waethaf amgylchiadau anodd tu hwnt.

Chwiliwn am y nerth a’r gallu i drin pawb yn deg.

Gwyddom ein bod yn gwneud camsyniadau a phenderfyniadau gwael drwy’r amser. Gweddïwn am y nerth a’r gallu i wneud dewisiadau gwell, ac i faddau i eraill â’u ffaeleddau hefyd.

Rho’r weledigaeth i ni gael profi bywyd a’r byd yn ei holl rhyfeddod. Rho’r nerth i ni fyw bywyd Cristnogol da, ac i ranu’n ffydd a’n daliadau ag eraill yn dirion ond yn gadarn. I fyw â gras.

Rho’r nerth i ni geisio rhoi’r cyntaf yn olaf, a’r olaf yn gyntaf.

Arglwydd, gwna ni yn offerynau dy hedd; lle bo casineb, gad i ni hau cariad; lle bo anaf, bo pardwn; lle bo amheuaeth, ffydd; lle bo anobaith, gobaith; lle bo tywyllwch, goleuni; a lle bo tristwch, llawenydd. O Dad Dwyfol, gad i ni gysuro nid ceisio cysur; cael ein deall, a hefyd deall; cael ein caru, a hefyd caru. Oherwydd wrth roddi yr ydym yn derbyn, wrth faddau y derbyniwn faddeuant, ac wrth farw fe'n genid i Fywyd Tragywyddol.

Gofynwn hyn yn enw’r un a’n dysgodd, tra’n gweddio, i ddweud gyda’n gilydd: “Ein Tad, ...”

**CYHOEDDIADAU:**

A gawn ni barhau os gwelwch yn dda drwy gyd-ganu rhif yr emyn:

EMYN: Arnom gwena dwyfol un (E212, T291 Gwalchmai)

SGWRS:

Cans fyrdd yw’r ffyrdd at urddas bywiol lith
Camau dith cymdeithas;
Cymuno’n wên cymwynas:
Gorau greddf byw’r gwir â gras.

**Beth yw gras?**

Sawl gwaith, d’wedwch, ‘da ni wedi diweddu oedfa capel drwy ganu neu gyd-adrodd “y fendith”, neu’r “Fendith Apostolaidd” i rhoi teitl crand iddi? Byddwn ni’n gwneud eto heddiw ymhen yr awr. Sawl gwaith y gweddïais i am “Ras Ein Harglwydd” heb feddwl rhyw lawer beth mae’n ei olygu? Mae “cariad” a “chymdeithas” yn syniadau sydd rhywfodd yn teimlo’n gyfarwydd, yn naturiol, yn ddynol. Ond nid gras. Nid gras “Grace Kelly”, fel symudiad rhyw ddawnswraig ar lwyfan – na! Ond beth felly dwi **yn** ei feddwl?

Efallai y byddwch chi'n synu na ddefnyddiwyd y gair gan yr Iesu yn ol hanes y Testament Newydd. Roedd yn dysgu am ras, ac yn byw gras, ond nid yw awduron yr Efengylau yn defnyddio’r gair “gras” yn uniongyrchol. Nid yw'r Beibl ‘chwaith yn rhoi diffiniad clir i ni, er bod y gair “gras” yn ymddangos droion. Mae deall beth mae gras yn ei olygu yn gofyn i ni fynd yn ôl at hen enw Hebraeg, at air a olygai "plygu", a esblygodd dros y canrifoedd i olygu "ffafr gymwynasgar ." Mae dangos gras yn golygu estyn ffafr neu garedigrwydd i rywun **nad yw'n ei haeddu ac na all byth ei enill na thalu’n ol amdano**. [Ail-adrodd efallai] Nid yw derbynydd gras mewn unrhyw ffordd yn haeddu’r ffafr. Mae’r ffafr yn cael ei chynig yn syml o ddaioni calon y rhoddwr, o galon lân y rhoddwr os mynwch chi. Ni

all y derbynydd wneud dim i enill y ffafr. Mewn ffordd, nid yw'r hyn mai'r derbynydd yn ei wneud yn dylanwadu o gwbl.

Felly mae derbyn **Duw trwy ras** yn wahanol iawn i geisio enill ei ffafr **ar sail gweithredoedd** da.

"Bu adeg pan oeddech chwithau yn feirw yn eich camweddau a'ch pechodau. Yr oeddech yn byw yn ôl ffordd y byd hwn, mewn ufudd-dod i dywysog galluoedd yr awyr, yr ysbryd sydd yn awr ar waith yn y rhai sy'n anufudd i Dduw. Ymhlith y rhai hyny yr oeddem ninau i gyd unwaith, yn byw yn ôl ein chwantau dynol ac yn porthi dymuniadau'r cnawd a'r synhwyrau; yr oeddem wrth natur, fel pawb arall, yn gorwedd dan ddigofaint Duw. Ond gan mor gyfoethog yw Duw yn ei drugaredd, a chan fod ei gariad tuag atom mor fawr, fe'n gwnaeth ni, ni oedd yn feirw yn ein camweddau, yn fyw gyda Christ; trwy ras yr ydych wedi eich achub. Yng Nghrist Iesu, fe'n cyfododd gydag ef a'n gosod i eistedd gydag ef yn y nefolion leoedd, er mwyn dangos, yn yr oesoedd sy'n dod, gyfoeth difesur ei ras trwy ei diriondeb i ni yng Nghrist Iesu. Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd. Nid eich gwaith chwi yw hyn; rhodd Duw ydyw; nid yw'n dibynu ar weithredoedd, ac felly ni all neb ymffrostio. Oherwydd ei waith ef ydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i fywyd o weithredoedd da, bywyd y mae Duw wedi ei drefnu ini o'r dechrau."
[Effesiaid 2]

Mae'r Cristion yn credu bod Duw wedi dangos ffafr neu gymwynas neu ewyllys da tuagato, er nad oedd yn ei haeddu. Hwn yw Gras Duw. Fel Cristnogion, 'da ni'n ceisio efelychu hyn yn ein perthynas â chyd-ddyn. Ceisiwn ddangos yr un ffafr, cymwynas ac ewyllys da tuagat bobl eraill, er efallai teimlwn yn reddfol nad yw pawb yn haeddu'r ffafr. Rhoi, heb ddisgwyl dim byd yn ol. Rhoi diamod. Rhoi, er nad yw'r derbynydd yn haeddu'r rhodd. Gras yw hanfod yr efengyl, fel dywedodd Paul:

"Ac yn awr dyma fi, dan orfodaeth yr Ysbryd, ar fy ffordd i Jerwsalem, heb wybod beth a ddigwydd imi yno, ond bod yr Ysbryd Glân o dref i dref yn tystiolaethu imi fod rhwymau a gorthrymderau yn fy aros. Ond yr wyf yn cyfrif nad yw fy mywyd o unrhyw werth imi, dim ond imi allu cwblhau fy ngyrfa, a'r weinidogaeth a gefais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu i Efengyl gras Duw."
[Actau 20]

Nid ddylai'r person sy'n derbyn gras deimlo eu bod mewn dyled o gwbl. Nid oes angen rhoi dim byd yn ol. Rhodd diamod ydyw. Rhodd am byth. Ond gall y gost i'r person sy'n cynig a rhoi gras fod yn fawr. Cost gras i Dduw oedd marwolaeth yr Iesu ar y groes. Cost gras Bonhoeffer i genedlaethau o Gristnogion yn fyd eang, ac i ddyfodol yr Almaen wedi'r Ail Rhyfel Byd, oedd ei fywyd ei hun. Ond mae rhoddwr gras yn rhoi yn fodlon er y gost. Â'r rhoddwr yn dlotach er mwyn i'r derbynydd gyfoethogi.

"Oherwydd yr ydych yn gwybod am ras ein Harglwydd Iesu Grist, fel y bu iddo, ac yntau'n gyfoethog, ddod yn dlawd drosoch chwi, er mwyn i chwi ddod yn gyfoethog trwy ei dlodi ef."
[2 Corinthiaid 8]

Gras yw gweithred barhaus, lesol Duw ynom ni, a hebddi ni allwn wneud dim:

"Yn ôl y gorchwyl a roddodd Duw i mi o'i ras, mi osodais sylfaen, fel prifadeiladydd celfydd, ac y mae rhywun arall yn adeiladu arni. Gwylied pob un pa fodd y mae'n

adeiladu arni. Ni all neb osod sylfaen arall yn lle'r un sydd wedi ei gosod, ac Iesu Grist yw hono.”
[1 Corinthiaid 3]

Gan arall-eirio’r diweddar Donald Barnhouse, "**Addoliad** yw cariad sy'n esgyn at rhywun neu rhywbeth mwy; **serch** yw cariad ar led at rhywun cyffelyb; **gras** yw cariad sy’n disgyn at rhywun llai neu anhaeddianol.”

**Llawenydd yn lle rheolau**

Mae ‘na hanes diddorol i’r syniad o “ras”, yn ymestyn nol i gyfnod yr Hen Destament. Roedd hen grefydd yr Iddewon yn frith o ofynion a rheolau. Gyda'r gofynion daeth disgwyliadau mawr, amhosib i’w cyrraedd. Teimlai’r Iddewon cyffredin yn euog, yn llawn cywilydd fel canlyniad. Gydag obsesiwn â dyletswydd, ymddygiad allanol, a ffocws cyson ar dda yn erbyn drwg, aeth y grefydd mor feichus fel nad oedd lle ar ôl i lawenydd. Dirywiodd y crefydd i berfformiad arwynebol allanol yn hytrach na system o ddaliadau diffuant mewnol. Daeth credo yn fater o orfodaeth nid o lawenydd.

(Gyda llaw, mae’n anodd peidio â meddwl nad yw ein Cristnogaeth ni heddiw mewn perygl o ddisgyn i’r un cyflwr - os nad yw wedi cyrraedd y cyflwr yn barod!)

Mae Efengyl Ioan yn crynhoi'r gwahaniaeth rhwng hen grefydd yr Iddewon a’i holl reolau, â Christnogaeth yn seiliedig ar ras a chariad:

“Canys trwy Moses y rhoddwyd y Gyfraith; trwy Iesu Grist y gwireddwyd gras a gwirionedd"
[Ioan 1]

Felly daeth Cristnogaeth fel chwildro, drwy osod “gras a gwirionedd” fel ffocws newydd, nid yr holl rheolau. Disodlwyd caethiwed ofnus euogrwydd gan gymhelliad newydd o lawenydd a chariad.

“Yna dywedodd Iesu wrth yr Iddewon oedd wedi credu ynddo, “Os arhoswch chwi yn fy ngair i, yr ydych mewn gwirionedd yn ddisgyblion i mi. Cewch wybod y gwirionedd, a bydd y gwirionedd yn eich rhyddhau.””
[Ioan 8]

**Agape**

Eto, mae ‘na gysylltiad amlwg rhwng syniad “gras” a chredoau’r Groegiaid ynglŷn â chariad. Fe gofiwn bod y Groegiaid yn gwahaniaethu rhwng cariad nwydol rhwng dau berson, sef “eros”; cariad brawdol, sef “philos”; a chariad heb ddisgwyl dim byd yn ôl, sef “agape”. Efallai mai “gras” yw’r cam nesaf yn y dilyniant hwn.

**Wyneb “ie”**

Rwyn siwr eich bod wedi clywed sôn am Thomas Jefferson, arlywydd yr Unol Dalaethiau, o dras Gymreig yn ol y bobl sy’n olrhain y pethau ‘ma. Mae'n ymddangos bod Jefferson a'i ddynion, wrth deithio’r wlad ar eu ceffylau, wedi dod ar draws afon wedi chwyddo gan sawl diwrnod o wlaw trwm. Croesodd grŵp Jefferson yr afon ar eu ceffylau ac wrth i'r Arlywydd fentro daeth dieithryn heb geffyl ato, a gofyn am help i groesi. Atebodd

Jefferson yn gadarnhaol, cododd y dieithryn i fyny ar ei geffyl a gyda'i gilydd fe wnaethon nhw groesi'r dŵr yn ddiogel.

Unwaith ar yr ochr arall gofynwyd i'r dyn pam y dewisodd ofyn wrth yr Arlywydd am help yn lle un o'r marchogion eraill. Cafodd y dyn sioc pan sylweddolodd ei fod wedi gofyn i Arlywydd yr Unol Daleithiau am help!

Wedyn esboniodd y dieithryn pam y dewisodd Jefferson am gymorth. Dywedodd y dieithryn yn syml, “mae gan rhai pobl wynebau'n sy’n dweud “na” tra bod y gair “ie” wedi'i ysgrifenu ar eraill.” Roedd gan Mr. Jefferson wyneb “ie”.

”Byddwch yn weithredwyr y gair, nid yn wrandawyr yn unig, gan eich twyllo eich hunain. Oherwydd os yw rhywun yn wrandawr y gair, ac nid yn weithredwr, y mae'n debyg i un yn gweld mewn drych yr wyneb a gafodd; fe'i gwelodd ei hun, ac yna, wedi iddo fynd i ffwrdd, anghofiodd ar unwaith pa fath un ydoedd. Ond am y sawl a roes sylw dyfal i berffaith gyfraith rhyddid ac a ddaliodd ati, a dod yn weithredwr ei gofynion, ac nid yn wrandawr anghofus, bydd hwnw yn ddedwydd yn ei weithredoedd.“
[Iago 1]

“Wyneb ie” yw’r ffordd ymlaen i’n byd heddi’ hefyd, wyneb gras. Wyneb cymwynas, wyneb cyfeillgarwch. Wastad yn cynig ffafr, ta waith natur y derbynydd. Tybed, pan ein bod ni’n cwrdd â dieithryn, neu’n ymdrin â theulu a ffrindiau neu ni ein hunain, ai “wyneb ie” ‘da ni’n dangos?

**Byw gyda’n ffaeleddau**

Wedi sôn am Thomas Jefferson a’i “wyneb ie”, naturiol yw meddwl am arweinwyr y byd gwleidyddol presenol, pobl fel Trump, a Putin, a Sunak a Netynjahu: tybed faint o’r rhain sydd ag “wyneb ie” - bach iawn, yn ol ei gweithredoedd yn sicr.

Yn ddiweddar, gwelais y fflim “Mr Jones” am Gareth Jones o’r Bari aeth i’r Wcrain yn y 1930 i geisio deall mwy am economi’r Undeb Sofietaidd. Sylweddolodd fod y comiwnyddion dan orchymun Stalin yn symud cnydau’r Wrcain yn fwriadol i Rwsia er mwyn cynal yr economi yno, gan greu newyn erchyll – yr “holodomor” - a laddodd chwe miliwn o bobl Wrcain. Pa rhyfedd bod ‘na atgasedd tuagat Rwsia yn yr Wcrain heddiw, yn enwedig â Pwtin yn ceisio ail-lunio’r map eto?

Gwnaeth wylio’r ffilm “Mr Jones” i mi ail-ddarllen “Animal Farm” gan George Orwell, ysgrifenwyd yn yr un cyfnod. Stori tylwyth teg yn ol y teitl sy’n ddrych frawychus i’r cyflwr dynol. Stori am fferm, y ffarmwr (Mr Jones arall) a’r anifeiliad – y moch yn enwedig! Roedd Mr Jones yn rhedeg y fferm er ei fantais personol: magu, godro a “lladd” anifeiliad er elw. Digon rhesymol efallai o’r olwg “ddynol”. Ond i’r hen fochyn “Old Major” ymddangosai hyn yn hollol afresymol, a chyhoeddodd mai Dyn a’r Ddynoliaeth oedd achos holl drafferthion y byd.

“Ar fyrder bo rhaid derbyn yn nefyn
Anifail a blodyn
Mai nid cymar Daear Dyn:
‘Wir, fe’i elwir yn elyn.”

Yn y stori, fel canlyniad, gweithredwyd gwrthrhyfel gan yr anifeiliaid i gyd, â'r bwriad o greu Iwtopia gyfartal i bob anifail. Ond yn y pen draw, mae'r moch yn ymddangos un diwrnod yn cerdded ar eu traed ol yn unig – yn union fel Dyn - gan gyhoeddi "All animals are equal, but some animals are more equal than others". Hyny yw, canlyniad y gwrthrhyfel oedd creu fersiwn newydd – ac efallai fersiwn mwy llygredig fyth - o'r **un llanast gwreiddiol**.

Darllenais hanes William Chester Minor, meddyg ym myddin yr Undeb yn ystod Rhyfel Cartref yr Unol Daleithiau. Yn ol y sôn, aeth yn wallgof o achos yr hyn a welodd yn y rhyfel. Daeth i Brydain, ond fe'i garcharwyd am lofruddiaeth. Dangoswyd mai ei salwch meddwl oedd yn gyfrifol am y weithred, ac fe gafodd dreilio gweddill ei oes mewn rhyw fath o "garchar meddwl" nepell o Lundain. Roedd yn ddyn hynod ddiwylliedig a galluog. Yn ystod ei gyfnod yn y carchar, cyfranodd yn helaeth i glorianu'r iaith Saesneg am y tro cyntaf yn yr "Oxford English Dictionary" dan olygaeth James Murray.

Ydi, mae Dyn yn gyfrifol am greulondeb enbyd yn ein byd. Ie, Dyn sy'n llygru'r Ddaear heddi'. Gwir, byddai cyflwr ein Daear llawer yn well pe ddiflanai'r ddynoliaeth oddiarni. Ond, drwy ras Duw, mae Dyn hefyd yn wirioneddol sbesial: mae ganddo ymwybyddiaeth o'r bydysawd a phrydferthwch bywyd ac ymwybyddiaeth o'i fodolaeth ei hun. Mae ganddo'r gallu i newid pethau er gwell, nid yn unig er gwaeth. Hyd y gwyddom, Dyn – ni - yw'r unig rhywogaeth â'r fath alluoedd. Mae angen i ni ddysgu ar fyrder i ddangos gras tuagat ein byd a'n planed a'i holl fywyd, yn union fel y dangosodd Dduw ras i ni.

Fel Cristnogion, rydyn ni'n byw mewn gras - mae ein ffydd wedi'n rhyddhau, er ein ffaeleddau.

"Ond yr ydym ni'n credu mai trwy ras yr Arglwydd Iesu yr achubir ni, …."<br>[Actau 15]

Ond ni ddylai hyn ein hanog i fod yn fodlon â'n ffaeleddau. Mae'n nhw'n tueddu i'n caethiwo, ein caethiwo i ddylanwadau drwg. Dylem weithio i leihau ein ffaeleddau. Pan tybiwn bod cyd-ddyn yn pechu, ni ddylem ei farnu na'i gasáu fel person, ond yn hytrach casáu'r ymddygiad, y gwendid neu'r ffaeledd sy'n ei niweidio ef, ac yn niweidio eraill o'i gwmpas hefyd - a gwneud hyn oll ta waeth unrhyw gost personol i ni ein hunain.

"Ond dywedodd wrthyf, "Digon i ti fy ngras i; mewn gwendid y daw fy nerth i'w anterth." Felly, yn llawen iawn fe ymffrostiaf fwyfwy yn fy ngwendidau, er mwyn i nerth Crist orffwys arnaf."<br>[2 Corinthiaid 12]

Ni ddylem chwaith gondemnio eraill am eu faeleddau. Yn lle, fel y nododd Paul, dylem

"… siarad yn garedig â phawb; dylai popeth rydych chi'n ei ddweud fod yn dda ac yn ddefnyddiol. Gwnewch bob ymdrech i ddod o hyd i'r geiriau iawn i bawb".<br>[Colosiaid 4]

Dylem ddangos "wyneb ie" i bawb, fel petai. A dylem wneud y gorau glas o'r doniau a rhoddwyd i ni:

”Yn ôl fel y derbyniodd pob un ohonoch ddawn, defnyddiwch eich dawn yng ngwasanaeth eich gilydd, fel gweinyddwyr da ar amryfal ras Duw. Pwy bynag sy'n llefaru, llefared fel un sydd wedi derbyn oraclau Duw; os yw'n gwasanaethu, gwasanaethed fel un sydd wedi derbyn o'r nerth y mae Duw yn ei gyfranu. Yr amcan ym mhob dim yw gogoneddu Duw trwy Iesu Grist. Iddo ef y perthyn y gogoniant a'r gallu byth bythoedd. Amen.”

[1 Pedr 4]

**Diweddglo**

Ac wrth dynu at clo, o waith Bonhoeffer, darllenais “Llythyron a phapurau o’r carchar”, “Ar ol deng mlynedd” a “Pris disgyblaeth” yn ddiweddar.

Llyfryn bach iawn yw’r ail o’r rhai - gellir ei ddarllen mewn awr, ond fe fyddai’n cymryd oes a mwy i wir ddeall ac ystyried goblygiadau’r geiriau. Ar ol deg mlynedd dan ddwrn Hitler, mae cymdeithas a diwylliant yr Almaen yn dadfeilio ym mhob ystyr. Mae strwythurau moesoldeb a chyfiawnder y wlad wedi eu dymchwel. Mae’r eglwys i bob ystyr yn deyrn i Hitler. Ac mae Cristnogion da wedi cytuno i gynllwynio i ladd arweinydd y wlad mewn ymgais i sicrhau dyfodol yr Almaen a’i Christnogaeth. Mae’n amlwg o’i eiriau bod Bonhoeffer wedi chwilio’i enaid am ffordd i ddeall yr hyn sy’n digwydd i’w wlad anwyl, a Christnogaeth ynddi. A beth sydd wedi digwydd iddo fe. **Ac mae’r artaith wedi ei helpu i weld hanfod ei Gristnogaeth yn well.**

**Twpdra**

Mae Bonhoeffer hyd yn oed yn dylunio damcaniaeth, “the theory of stupidity” i esbonio sut mae moesoldeb poblogaeth gwlad ddiwylliedig fel yr Almaen wedi dadfeilio’n llwyr dros gyfnod byr o ddeng mlynedd. Twpdra neu hurtrwydd, “stupidity” yn yr iaith fain, sy’n cael y bai. Ond nid twpdra yn yr ystyr arferol sydd mewn golwg yn y fan hyn. Na, rhyw dwptra arbenig yw hwn, yn yr ystyr canlynol: gall person hynod glyfar ac addysgedig fod yn dwp yn ôl Bonhoeffer, a pherson heb addysg fod yn gall. Mae person sy’n byw wrth ei hun yn anhebyg o fod yn dwp, am fod rhaid iddo ddibynu ar ei hun i gadw’n iach, yn ddiogel. Ond mae person mewn tyrfa yn fodlon aberthu ei annibyniaeth a’i synwyr cyffredin i ddilyn y dorf a’i arweinydd, ta waeth y goblygiadau, er mwyn cael ei weld mewn goleuni ffafriol gan weddill y dyrfa - **ta waeth y goblygiadau i’r unigolyn**. Dyma beth yw ystyr twpdra i Bonhoeffer.

Felly cyflwr a chlefyd cymdeithasol ydyw twpdra. **A gwaeth, dewis personol** yw twpdra i raddau.

Ac mae twpdra yn fyw peryglus yng ngolwg Bonhoeffer na drygioni, hyd yn oed. Pan fyddwn yn gwybod bod rhywbeth neu rywun yn ddrwg, gallwn gymryd camau i'w frwydro. Gyda hurtrwydd, mae'n llawer anoddach: mae’n amhosib defnyddio rheswm yn erbyn person twp! Gwaeth fyth, gall hurtrwydd y dorf gael ei fanipiwleiddio a’i ecsploetio gan ddrygioni’r arweinyddiaeth. Felly mae meithrin twpdra’r boblogaeth yn hanfodol a’n ddelfrydol i arweinydd unben ffôl fel Hitler neu Putin … neu Trump. ‘Nawr ystyriwch cyflwr gwleidyddol y “Deyrnas Unedig” am funud, a thactegau’r Blaid Dorïaidd yn ddiweddar yn enwedig. Gwir i Dduw, mae angen gras arnom.

Yn ol Bonhoeffer, yr unig ateb i dwptra yw gwaredigaeth allanol a mewnol. Gall neb ddarbwyllo dyn twp i newid ei ffordd. Rhaid iddo ddod i weld ac i ddeall ei gyflwr ei hun. Ac “ofni Duw” yw’r cam cyntaf at wir ddealltwriaeth.

Wrth gwrs, mae sawl athronydd wedi gwneud sylwadau tebyg i Bonhoeffer yn y cyswllt hwn dros y canrifoedd. Barn Edmund Burke oedd:

“Er mwyn i ddrygioni enill y dydd, yr unig beth sydd angen yw bod bobl da yn gwneud dim.”

Ac yn 1999, cyhoeddodd Dunning a Kruger ymchwil yn dangos bod dyn anwybodus yn tueddu gor-amcangyfrif lefel ei wybodaeth, lle bod dyn gwybodus yn tueddu tan-amcangyfrif lefel ei wybodaeth. Y canlyniad yw bod bobl anwybodus yn fwy hyderus, er wrth gwrs na ddylen nhw fod. Ac fel y dywedodd Stephen Hawking yn fwy diweddar:

“Nid anwybodaeth yw gelyn pennaf gwybodaeth, ond ffug-argraff ohoni (... the illusion of knowledge)”.

Neu i arall-eirio Socrates:

“Yr unig wir ddoethineb yw gwybod nad ydych yn gwybod dim”.

Ei gwydd, ei hurtrwydd ei hun - byw i’r oes
Heb reswm na chynllun;
Deall dim sy’n dallu dyn
A chawl y diawl sy’n dilyn.

**Cristnogaeth di-grefydd**

Mae Bonhoeffer yn gweld rheolau’n crefydd yn yr ugeinfed ganrif fel rhwystr i esblydiad ein ffydd - a bod angen datblygiad rhywbeth a elwir gan rhai yn “Gristnogaeth di-grefydd” - newid yn debyg i’r hyn a ddigwyddodd dwy fil o flynyddoedd yn ol, i droi cyffion strwythurau caeth yr Hen Destament yn lawenydd Cristnogaeth, llawenydd y Testament Newydd.

Ol Dy waith fel golau dydd - rhyw ddwyster
Rhydd ystyr ac awydd
I enaid ffol ganfod ffydd
Drwy ddianc crafanc crefydd.

Ysgrifena fod yn rhaid i’r Cristion fyw’n aeddfed a chyfrifol yn y byd fel y mae. Byw trwy ras Duw, nid trwy ideoleg.

**Gras rhad a gras drud**

Yn ei lyfr “Pris Disgyblaeth”, sonia Bonhoeffer am ras rhad a gras drud fel a ganlyn:

“Gras rhad (neu ras tsiêp) yw'r gras a roddwn i ni ein hunain. Gras rhad yw pregethu maddeuant heb ofyn edifeirwch, bedydd heb ddisgyblaeth eglwysig, cymun heb gyffes, iechydwriaeth heb gyffes bersonol. Gras rhad yw gras heb ddysgyblaeth, gras heb y groes, gras heb Iesu Grist byw ac yn y cnawd.”

“Gras drud (neu ras costus) yw’r efengyl y mae’n rhaid ei cheisio dro ar ôl tro, y rhodd y mae’n rhaid gofyn amdani, y drws y mae’n rhaid i ddyn gnocio arno. Mae gras o’r fath yn ddrud oherwydd ei fod yn ein galw i ddilyn, a gras ydyw am ei fod yn ein galw i

ddilyn Iesu Grist. Y mae yn ddrud am ei fod yn costio dyn ei einioes, a gras ydyw am ei fod yn rhoddi i ddyn yr unig wir fywyd. Y mae yn ddrud am ei fod yn condemnio pechod, a gras ydyw am ei fod **yn cyfiawnhau y pechadur**. Yn fwy na dim, mae'n ddrud oherwydd fe gostiodd i Dduw fywyd ei Fab."

Dyma i chi eiriau bendigedig, i'w darllen trosodd a throsodd.

**Pascal a Solzhenitsyn**

Fel y rhybuddiodd Blaise Pascal, y mathemategydd enwog o'r ail ganrif ar bymtheg: "Dim ond y bywyd hwn - y peth mwyaf bregus yn y byd - saif rhyngom ni a'r nefoedd ac uffern." Dylai breuder bywyd felly ein gorfodi i ddod yn geiswyr gwirionedd - yn union fel awgryma Bonhoeffer. Nid rhinwedd yw byw mewn anwybodaeth.

Bu'r awdur Alexander Solzhenitsyn, deiliad Gwobr Nobel am lenyddiaeth, yn y carchar yn yr hen Undeb Sofietaidd am wyth mlynedd, am iddo siarad yn erbyn Joseph Stalin. Aeth i'r carchar fel anffyddiwr, ond daeth oddi yno'n Gristion ymdroddedig. Yn lle bod yn chwerw am ei garchariad, dywedodd: "Diolchaf am brofiad y carchar, oherwydd wrth orwedd yno ar y gwellt breulyd, dysgais mai nid nod bywyd yw ffynu bydol fel y'm magwyd i feddwl, ond aeddfedu'r enaid."

Mae gras yn gofyn i ni fynd ym mhellach na charu cyd-ddyn. Mae'n erfyn arnom i garu pawb yn ddi-eithriad, er – yn ein tŷb ni - nad yw rhai o'r rhai sy'n derbyn yn haeddu'n cariad. Gras yw rhoi'r trysor mwyaf i'r sawl nad yw yn ei haeddu.

Fel y dywedodd fy nghyd-aelod ym Mhendref, Rhuthun, y Parch. Bernant Hughes mewn trafodaeth ar ol oedfa y llynedd, mae gras yn rhyw fath o "gariad uwch", rhyw gyflwr a gweithred sydd tu hwnt i gariad hyd yn oed. Gras Duw yw ei gariad tuagatom, er nad ydym yn ei haeddu. Ein bodolaeth yn y byd anhygoel o'n cwmpas. Ein hymwybyddiaeth o'n cyflwr. Ein gallu i garu ein gilydd. A'n pleser ni fel Cristnogion yw dangos a gweithredu yr un gras gyda phawb a phopeth yn y byd o'n cwmpas. Rhoi cariad di-amod, heb ddisgwyl dim byd yn ol. Derbyn anfantais er mwyn rhoi mantais i arall, er efallai teimlwn nad ydyw'r arall yn ei haeddu. Rhoi'r olaf yn flaenaf, a'r blaenaf yn olaf. Cariad uwch.

"A bydded i Dduw, ffynhonell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith."
[Rhufeiniaid 15]

Er mwyn Ei Enw, A-men.

EMYN: F'enaid, mola Dduw'r gogoniant (E83, T68 Goss)

**Y FENDITH**

Yn ddefod, yn weddi ddwyfol – a iâs
Cael Iesu'n y canol,
Rho oslef y nef yn ôl
I'm mynwes, Olau Mewnol.

Bydded i ras Ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân aros gyda ni oll, Amen.